


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Haemaflow Ltd

Sefydlwyd Haemaflow yn breifat yn 2008 fel cwmni deillio o gwmni technoleg Heamair Ltd, Abertawe.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Mae Haeamair Ltd yn datblygu cymhorthion anadlol sy'n dynwared y ffordd mae ysgyfaint iach yn gweithio mewn cleifion sydd â phroblemau anadlol. Wrth wneud hyn, canfu'r cwmni fod angen technolegau newydd nad oeddent ar gael eto yn fasnachol, yn cynnwys offer newydd i fesur cyfansoddiadau nwy a mesur tebygolrwydd gwaed i geulo.

Sefydlwyd Haemaflow er mwyn datblygu a manteisio ar yr offer hwn, ac mae cymorth gan raglen Arbenigedd Academaidd i Fusnes Llywodraeth Cymru wedi galluogi Haemaflow i gydweithio â Phrifysgol Abertawe a phartneriaid eraill er mwyn cynnal ymchwil mewn amrywiaeth o feysydd.

Mae un prosiect gyda'r grŵp hylifau cymhleth a gydnabyddir yn rhyngwladol, o Brifysgol Abertawe, hefyd wedi arwain at ddatblygu offer i olrhain nodweddion newidiol hylifau gelio, sy'n ddefnyddiol i fesur tebygrwydd gwaed i geulo.

Mae hyn yn bwysig wrth ddylunio unrhyw ddyfais feddygol sy'n dod i gyswllt â gwaed a fydd yn dychwelyd i'r corff gan ei bod yn beryglus i ddychwelyd gwaed sy'n debygol o geulo'n gyflym, neu sydd eisoes yn cynnwys clotiau.

Mae Haemaflow hefyd wedi addasu technoleg anadlol Haemair er mwyn datblygu dyfeisiau bychan, rhad i wella ansawdd a diogelwch gwaed sydd wedi'i drallwyso. Mae'r gwaith hwn, yn arbennig, wedi'i ariannu'n rhannol gan Fwrdd Strategaeth Technoleg y DU, ac mae Haemaflow ar hyn o bryd yn archwilio ffyrdd o ariannu'r gwaith hyd at y cam pan fydd yn gallu bod o fudd i gleifion.

Meddai Bill Johns, Rheolwr Gyfarwyddwr Haemaflow: "Mae cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi rhoi cyfle i Haemaflow ddefnyddio'r arbenigedd academaidd sydd ar gael ym Mhrifysgol Abertawe ac mae wedi bod yn hollbwysig o ran sefydlu sylfaen portffolio cynnyrch Haemaflow."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:

**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk

**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk

**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014